

Hawdd ei Ddeall



Ynglŷn â Chronfa Ochr yn Ochr yr 'NSUN'

Arian i grŵp cefnogi sy'n helpu pobl â'u hiechyd
meddwl a'u lles



Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn o ddogfen yr **NSUN**:
'Gwybodaeth am Gronfa Ochr yn Ochr yr NSUN'

Ebrill 2021

Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon



Dogfen hawdd ei deall yw hon. Ond efallai y bydd arnoch chi angen help o hyd i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Efallai bydd geiriau mewn **ysgrifennu glas trwm** yn anodd i'w deall. Gallwch chi edrych beth mae'r geiriau mewn glas yn meddwl ar **dudalen 21**.



Pan fydd y ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl '**National Survivor User Network (NSUN)**'. Am fwy o wybodaeth neu **help** â'r ddogfen hon cysylltwch â:



E-bost: sidebyside@nsun.org.uk
Ffôn: 020 7820 8982




Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall hwn, [cliciwch yma](#).

Ynglŷn â chronfa ochr yn ochr yr 'NSUN'



Mae'r gronfa hon ar gyfer helpu **grwpiau** yng Nghymru a Lloegr.



Gallwn ni roi arian hyd at £500.



Gallai'r grwpiau fod yn:

- **Grŵp cefnogi cymheiriaid**



Mae **grŵp cefnogi cymheiriaid** yn grŵp o bobl sy'n helpu ei gilydd â materion tebyg.

- **Grŵp cymorth i'w gilydd**



Mae hwn yn grŵp y mae pobl wedi'i gychwyn i gefnogi ei gilydd.

- **Grŵp hunangymorth**



Mae **grŵp hunangymorth** yn grŵp ble mae pobl yn cefnogi ei gilydd gyda materion sy'n effeithio arnyn nhw.

Y pethau y gall yr arian gael ei ddefnyddio ar ei gyfer



- I redeg eich grŵp ar-lein.



- I gyfarfod wyneb yn wyneb.



- I helpu i wneud yn siŵr y bydd y grŵp yn para.



Mae'n rhaid i'r grŵp gefnogi pobl i wella eu hiechyd meddwl a'u lles.



Efallai nad yw eich grŵp ar gyfer pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl. Ond mae'n rhaid i bwrpas y grŵp fod ar gyfer helpu i wella iechyd meddwl neu les.



Er enghraifft, gallai siarad â phobl eraill helpu rhywun i deimlo'n well ynddo'i hun.



Dylai eich grŵp gael ei redeg gan ei aelodau rywsut neu'i gilydd.



A dylai fod wedi'i leoli yn y gymuned. Nid yn y cyngor neu ysbyty.



Mae'r arian hwn wedi dod oddi wrth yr elusen '**Mind**' a'r archfarchnad '**Morrisons**'.



Sut i wneud cais

Gallwch chi wneud cais trwy ffurflen ar-lein yma: :

<https://www.nsun.org.uk/nsun-side-by-side-fund>

Gallwch chi gael y ffurflen yn Gymraeg yma: :

<https://www.nsun.org.uk/nsun-side-by-side-fund>



Neu gallwch chi lenwi'r ffurflen ar ddiwedd y ddogfen hon.



Cysylltwch â ni os oes arnoch chi angen help gyda'r ffurflen:

E-bost: sidebyside@nsun.org.uk

Ffôn: 020 7820 8982

Faint o arian alla i wneud cais amdano?



Gall eich grŵp wneud cais am arian rhwng £200 a £500.

Enghreifftiau o'r pethau y gall yr arian gael ei ddefnyddio ar ei gyfer



- Cynnyrch glanhau i helpu i wneud man cyfarfod yn ddiogel rhag Covid-19.



- Talu am wasanaethau fel '**Zoom**' neu '**Skype**' fel bo'r grŵp yn medru cyfarfod ar-lein.



- Llogi ystafell.



- Offer.

Sut byddwn ni'n penderfynu i bwy i roi arian iddyn nhw?



Rydyn ni'n meddwl y bydd llawer o grwpiau yn gwneud cais. Byddwn ni'n rhoi arian i'r rhai rydyn ni'n meddwl sydd ei angen fwyaf.


Mae gennym ddiddordeb mawr mewn cael ceisiadau gan y grwpiau hyn:



- Grwpiau o bobl croenliw.



- Grwpiau o bobl 18 i 25 oed.



- Grwpiau sydd **heb** fedru cyfarfod ar-lein yn ystod Covid-19.



Mae arnon ni eisiau cefnogi llawer o wahanol bobl yn deg ac yn gyfartal. Yn enwedig os ydyn nhw'n cael profiad o lawer o bethau anodd eraill. Er enghraifft, dod o gymuned dlawd.



Y pethau na fyddwn ni'n rhoi arian ar eu cyfer

Fyddwn ni ddim yn rhoi arian ar gyfer prif gostau rhedeg y grŵp. Cysylltwch â ni os nad ydych chi'n siŵr:


E-bost: sidebyside@nsun.org.uk

Ffôn: 020 7820 8982

Beth fydd yn digwydd ar ôl gwneud cais?



Fyddwn ni ddim yn gallu rhoi arian i bawb.



Bydd rheolwr yn edrych ar y ceisiadau.



Byddwn ni'n edrych a yw'r cais ar gyfer pethau rydyn ni'n gallu rhoi arian ar eu cyfer (**mae'r rhain yn cael eu rhestru ar dudalen 4**).



Byddwn ni wedyn yn cysylltu â'r grwpiau hyn i gael mwy o wybodaeth.



Byddwn ni yn gwneud penderfyniad ynghylch pwy i roi arian iddyn nhw. Gallai hyn gymryd tair i bedair wythnos.



Byddwn ni wedyn yn anfon cytundeb i'r grŵp ei lofnodi.

Ble dylech chi fod yn byw i gael arian?



Mae'r arian ar gyfer gyfer grwpiau yng Nghymru a Lloegr yn unig.



Fodd bynnag, os ydych chi'n cyfarfod ar-lein ac mae rhai aelodau yn byw yn rhywle arall, mae hyn yn iawn.

Pryd bydd y grŵp yn cael yr arian?



Erbyn diwedd mis **Gorffennaf 2021**.

Erbyn pryd y mae'n rhaid i'r grŵp wario'r arian?



Mae'n rhaid i'r arian gael ei wario erbyn **31 Rhagfyr 2021**.

Pryd mae'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau?



31 Mai 2021. Ond edrychwch ar ein gwefan ar gyfer unrhyw newidiadau yma: <https://www.nsun.org.uk/nsun-side-by-side-fund>

Ffurflen gais

1. Ydych chi'n aelod o 'NSUN'?

Ydw ☐

Nac ydw ☐

Mae'n rhaid i chi fod yn aelod i wneud cais. Ymgeisiwch ar ein gwefan: www.nsun.org.uk/member-join

Ar ôl i chi wneud cais i ddod yn aelod, gallwch chi lenwi'r ffurflen hon a thicio **ydw** ar dop y dudalen hon.

2. Enw'r grŵp:

3. Enw'r mudiad y mae'r grŵp yn rhan ohono, os oes.

4. Gwefan (os oes gennych chi un)

5. Enw 'Twitter' (os oes gennych chi un)

6. Tudalen 'Facebook' (os oes gennych chi un)

7. 'Instagram' (os oes gennych chi un)

8. Prif enw cyswllt

9. Prif e-bost cyswllt

10. Ail enw cyswllt

11. Ail e-bost cyswllt

12. Cyfeiriad y mudiad

13. Rhif ffôn

14. Pa ardal(oedd) o Gymru neu Loegr y mae eich mudiad yn gweithio?

15. Oes cyfrif banc gan eich grŵp?

Oes ☐

Nac oes ☐

16. Mae **statws cyfreithiol** gan rai grwpiau. Beth yw **statws cyfreithiol** eich grŵp? Ticiwch y rhestr isod:

- Grŵp **anghyfansoddiadol** (dim cyfansoddiad) ☐
- **Cymdeithas anghorfforedig** (gyda chyfansoddiad) ☐
- Grŵp **cyswllt** – mae hyn yn meddwl bod eich grŵp yn gysylltiedig â mudiad ☐
- **Elusen gofrestredig** ☐
- **CIC / CIO** (Cwmni Buddiannau Cymunedol / Sefydliad Corfforedig Elusennol) ☐
- Cwmni cyfyngedig drwy warant ☐
- Menter gymdeithasol ☐
- Dydw i ddim yn siŵr ☐
- Arall ☐

17. Beth oedd incwm eich grŵp yn 2020/21? (does dim angen yr union swm arnon ni)

18.A gawsoch chi Gronfa Covid yr 'NSUN' yn 2020?

19.Faint o arian sydd arnoch chi eisiau gwneud cais amdano?

Ar gyfer y cwestiynau canlynol, efallai y byddwch chi'n ei chael hi'n haws ysgrifennu eich ateb yn 'Word' ac yna ei gopïo a'i ludo yn y bocs.

20. Dywedwch wrthyn ni sut y byddwch chi'n gwario'r arian. Dywedwch gymaint ag y gallwch chi wrthyn ni – ond mewn 300 gair neu lai, os gwelwch yn dda.

21. Dywedwch ychydig wrthyn ni am eich grŵp. Dim mwy na 300 gair, os gwelwch yn dda.

Er enghraifft:

- Ar gyfer beth y mae'r grŵp?
- Pryd cafodd ei gychwyn?
- Faint o aelodau sydd ynddo?
- Sut mae'n helpu pobl?

22.Pa wahaniaeth fydd yr arian yn ei wneud i'ch grŵp?

Er enghraifft, dywedwch wrthyn ni:

- pwy fyddwch chi'n ei helpu?
- beth fyddwch chi'n gwario'r arian arno?

23. Os byddwn ni'n rhoi yr arian i chi, ydych chi'n cytuno i roi i 'NSUN':

- dderbynebaw ar amser
- gwybodaeth am y ffordd y cafodd yr arian ei wario
- y gwahaniaeth y mae wedi'i wneud? (gall 'NSUN' eich helpu gyda hyn).

Ydw ☐

Nac ydw ☐

24. Fe hoffen ni wybod mwy am y ffordd y mae eich grŵp yn cael ei redeg. Dywedwch wrthyn ni am bethau fel:

- Cytundeb y grŵp.
- **Cylch gorchwyl.** Mae hyn yn meddwl pethau fel y rheolau ar gyfer y ffordd y dylai'r grŵp gael ei redeg.
- Prosesau **diogelu.** Mae hyn yn meddwl sut y mae pobl yn cael eu diogelu.

25. A fuasai gennych chi ddiddordeb mewn sesiwn hyfforddi ynghylch gwneud polisi **diogelu?**

Buasai ☐

Na fuasai ☐

Geiriau anodd

Grŵp cefnogi cymheiriaid

Mae grŵp cefnogi cymheiriaid yn grŵp o bobl sy'n helpu ei gilydd â materion tebyg.

Grŵp cymorth i'w gilydd

Mae hwn yn grŵp y mae pobl wedi'i gychwyn i gefnogi ei gilydd.

Grŵp hunangymorth

Mae grŵp hunangymorth yn grŵp ble mae pobl yn cefnogi ei gilydd gyda materion sy'n effeithio arnyn nhw.